Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Trawsgydymffurfio: dŵr daear (GAEC 3) (2017)

Crynodeb o'r rheolau ar ddiogelu dŵr daear rhag llygredd amaethyddol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Ionawr 2017

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Ionawr 2017

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cyflwyniad

Diffiniad

Y prif ofynion

Archwiliadau maes

Arfer da

Gwybodaeth pellach

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyflwyniad

Nod y gofyniad hwn yw diogelu dwˆr daear rhag cael ei lygru gan weithgareddau amaethyddol.

Diffiniad

- Diffinnir dŵr daear fel unrhyw ddŵr sydd islaw wyneb y tir sydd mewn parth dirlawnder (hynny yw, islaw'r lefel trwythiad) ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd.
- Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru restr gyflawn o sylweddau peryglus a sylweddau nad ydynt yn beryglus.

Y prif ofynion

- O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, rhaid cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwaredu sylweddau peryglus neu sylweddau nad ydynt yn beryglus ar dir yn unig ac mae'n rhaid i chi fodloni holl amodau'r drwydded.
- Peidiwch â gwasgaru hen ddip defaid ar dir serth nac ar dir sy'n draenio'n wael, yn llawn dŵr neu sydd wedi cracio.
- Peidiwch â gwasgaru unrhyw sylweddau peryglus neu sylweddau nad ydynt yn beryglus ar dir sydd o fewn 10 metr o ddŵr wyneb neu 50 metr o ffynnon, pistyll, twll turio neu gwrs dŵr sy'n bwysig i natur.
- Lle bynnag mae sylweddau peryglus neu sylweddau sy'n llygru yn cael eu defnyddio, eu cynhyrchu, eu storio neu eu trin, bydd disgwyl i ffermwyr gadw at y Codau Ymarfer amrywiol e.e. Cod Gwaredu Dip Defaid a gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli LLygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016/

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

359.

Archwiliadau maes

- Gofalu bod gennych drwydded ddilys gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwaredu sylweddau pheryglus a sylweddau nad ydynt yn beryglus ar y tir.
- Gofalu nad yw hen fatrïau cerbydau yn llygru dŵr daear.

Arfer da

- Rhaid i ffermwyr a chontractwyr ddilyn y Cod Ymarfer Defnyddio a Gwaredu Cyfansoddion Dip Defaid yn ogystal ag unrhyw ofynion trwyddedu penodol. Mae copïau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Wrth waredu dip defaid, gwasgarwch ychydig ar y tro ee ddim mwy na 5 metr ciwbig yr hectar os nad ydych am ei deneuo neu, os ydych yn defnyddio tancer sugno neu 20 metr ciwbig yr hectar os ydych wedi'i gymysgu gyda 3 rhan o slyri neu ddŵr, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cyhoeddi yn y drwydded.
- Mae cyngor i ffermwyr ar storio olew i'w weld ar wefan Ymgyrch Oil Care: **www.oilcare.org.uk/look-after-your-oil/ farmers-horticulture/**

Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2022)** o fewn y pecyn hwn.

> **Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
> Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.